**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 5 Medi 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | L S Gibbard | M B Lewis |
| R D Lewis | P B Smith | A H Stevens |
| D W W Thomas | L J Tyler-Lloyd | T M White |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson a/ac M H Jones

---

## 29 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd D W W Thomas – Eitem Agenda 7 (Cais Cynllunio 2017/1393/S73) – Personol – Mae fy chwaer yn breswylydd yn Campion Gardens.

## 30 Cofnodion.

**Penerfynwyd** ecymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 1 Awst 2017 fel cofnod cywir.

## 31 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Cafodd yr eitem ganlynol ei gohirio gan swyddogion:
Eitem Agenda 6 - Gorchymyn Cadw Coed Dros Dro - GCC629 - Tir wrth 7 Teras Hadland, West Cross, Abertawe.

## 32 Gorchymyn Cadw Coed Dros Dro - GCC628 - 24 Heol y Chwarel, Treboeth, Abertawe.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth i gadarnhau fel gorchymyn llawn, orchymyn dros dro GCC 628 wrth dir ger 24 Heol y Chwarel, Treboeth.

Amlinellwyd y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch y cynnig a manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed 628: Tir ger 24 Heol y Chwarel, Treboeth.

## 33 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**PENDERFYNWYD**

1) **CYMERADWYO'R** ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

(Eitem 1) Cais Cynllunio 2017/1067/FUL – 13A Stryd Balaclave, St Thomas, Abertawe

#(Eitem 2) Cais Cynllunio 2016/0354/FUL – Sunnybank, Reynoldston, Abertawe

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

#(Eitem 3) Cais Cynllunio 2017/0425/FUL – The Pines, Oxwich, Abertawe

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

(Eitem 4) Cais Cynllunio 2017/1434/S73 – Pentref Ymddeol Campion Gardens, Comin Clun, Mayals, Abertawe

(Eitem 5) Cais Cynllunio 2017/1434/S73 – Birch Court, 44 Heol Sway, Treforys, Abertawe

## 34 2013/0617 - Tir i'r de o Heol Glebe, Casllwchwr, Abertawe.

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm adroddiad ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas a oedd yn amlinellu penderfyniad blaenorol y pwyllgor ynghylch cymeradwyo datblygiad preswyl yn y lleoliad uchod, yn amodol ar gytundeb Adran 106, y cynhwyswyd ei fanylion yn yr adroddiad.

Atodwyd copïau o adroddiad gwreiddiol y pwyllgor cynllunio er gwybodaeth.

Mae Adran 1.7 yr adroddiad (tudalen 59) yn cyfeirio at adroddiad y Pwyllgor Cynllunio a Thaflen Camau Gweithredu 4 Ebrill 2017 yn cael eu hatodi fel Atodiad B. Fodd bynnag, drwy gamgymeriad nid oedd y dogfennau hyn wedi cael eu hatodi fel atodiad i adroddiad yr eitem. Cafodd copïau o'r dogfennau hyn eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio cyn dechrau'r cyfarfod.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Dylai llinell olaf Adran 3.1 yr adroddiad (tudalen 60) gael ei diwygio fel a ganlyn:

*“Ac yn unol â’r amodau a bennwyd yn Atodiad A, ac eithrio Amod 3 y dylid ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at y cynllun safle diwygiedig a gyflwynwyd fel rhan o’r cais hwn (Rhif 1107-TP01 Diw. B – Cynllun Presennol y Safle, a dderbyniwyd ar 21 Gorffennaf 2017).”*

Derbyniwyd hefyd lythyr hwyr breswylydd sy'n byw ar Heol Glebe yn gwrthwynebu i'r cais am y rhesymau a grynhoir isod:
Ni all Heol Glebe ymdopi â’r traffig ychwanegol a gynhyrchir gan y datblygiad arfaethedig. Mae cyfleusterau parcio eisoes yn annigonol i breswylwyr Heol Glebe ac mae'r ffordd eisoes yn beryglus. Bydd y traffig ychwanegol a gynhyrchir gan y cynnig yn gwneud yr ardal o amgylch mynedfa'r safle yn beryglus i breswylwyr lleol.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd y Cynghorydd R V Smith (Aelod Lleol) y pwyllgor gan siarad i gefnogi'r cais yn amodol ar beidio â diwygio amodau cytundeb Adran 106 o'r rheiny a gynhwyswyd yn y gymeradwyaeth wreiddiol.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO'R** cais yn amodol ar gytundeb Adran 106 i ddarparu:

- 15% o dai fforddiadwy ar y safle; sy'n cynnwys cymysgedd 50/50 o eiddo 2 a 3 ystafell wely wedi'u darparu ar 42% o Arweiniad i Gostau Derbyniol, o ddaliadaethau wedi'u rhentu'n gymdeithasol sy'n cydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygu. Dylai dyluniad a manyleb y tai fforddiadwy fod o safon sy'n gyfartal â'r rhai a ddefnyddir yn yr Unedau Marchnad Agored;
- Cyfraniad addysg o £100,000;
- Cyfraniad priffyrdd o £92,100;
- Cynlluniau rheoli ar gyfer cynnal a chadw a rheoli'r pyllau gwanhau a chynnal a chadw a rheoli mannau agored cyhoeddus a'r ardaloedd chwarae, a mynediad cyhoeddus iddynt;
- Caiff ffïoedd monitro eu talu'n unol â gofynion CCA mabwysiedig y cyngor yn dwyn y teitl "Rhwymedigaethau Cynllunio" (2010).

Daeth y cyfarfod I ben am 2.32 pm

**Cadeirydd**